Arolygiaeth Gofal **Cymru**
Care Inspectorate **Wales**

# Adroddiad Arolygu Gofal Plant ar gyfer

**Gofal Plant Flourish Cymru**

**Ysgol Gynradd Tonyrefail**
**Martin Crescent**
**Tonyrefail**
**Porth**
**CF39 8NT**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

Adroddiad heb ei gyhoeddi



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

21/01/2020

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2020.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

| Graddau | Yr hyn y mae'r graddau yn ei olygu |
|---|---|
| **Rhagorol** | Dyma wasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Dyma wasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Dyma wasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hybu llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Dyma wasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle mae gwasanaethau'n wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyflwyno hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

## Disgrifiad o'r gwasanaeth

Hwn yw'r arolygiad cyntaf o'r gwasanaeth, sydd wedi'i gofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) i ddarparu gofal y tu allan i'r ysgol i hyd at 16 o blant, ac sy'n gweithredu o safle yn Ysgol Gynradd Gymraeg Tonyrefail. Mae'r gwasanaethau yn cynnwys darpariaeth gofleidiol rhwng 12.30pm a 3.30pm ar gyfer plant sy'n mynd i'r ysgol yn y bore, a chlwb ar ôl ysgol sy'n rhedeg rhwng 3.20pm a 6.00pm bob diwrnod ysgol. Mae clwb gwyliau ar gael rhwng 8.30am a 3.30pm yn ystod gwyliau haf ysgolion. Y darparwr gwasanaeth yw Gofal Plant Flourish Cymru Child Care ac mae Natalie Hughes wedi cael ei henwebu'n unigolyn cyfrifol. Mae person â chyfrifoldeb sy'n gyfrifol am redeg y gwasanaeth o ddydd i ddydd. Gwasanaeth Cymraeg yw hwn.

## Crynodeb

| Thema | Gradd |
|---|---|
| **Llesiant** | **Da** |
| **Gofal a Datblygiad** | **Da** |
| **Yr Amgylchedd** | **Da** |
| **Arwain a Rheoli** | **Da** |

**1. Asesiad cyffredinol**

Mae'r plant yn mwynhau ac yn dysgu o amrywiaeth dda o weithgareddau a phrofiadau diddorol. Maent wedi ymgartrefu'n dda ac wedi ymlacio yn eu hamgylchedd ac maent yn ymgysylltu'n dda â'r plant eraill a'r staff sy'n gofalu amdanynt. Mae'r staff yn meddu ar wybodaeth dda am anghenion y plant ac yn darparu gofal meithringar a chefnogol. Caiff y clwb ei gefnogi'n dda gan y darparwr, ac mae cydberthnasau da â'r ysgol lle y mae'r plant yn mynd yn ystod y dydd. Mae'r gymhareb o staff i blant yn dda ac mae hyn yn sicrhau y caiff anghenion y plant eu diwallu'n dda, a hynny'n gyson. Mae'r amgylchedd yn groesawgar, yn ddeniadol ac mae digon o adnoddau ar gael dan do ac yn yr awyr agored.

**2. Gwelliannau**

Hwn oedd yr arolygiad cyntaf ers cofrestru.

**3. Gofynion ac argymhellion**

Ni nodwyd unrhyw faterion diffyg cydymffurfio yn ystod yr arolygiad hwn. Gwnaethom un argymhelliad a gaiff eu trafod yn yr adroddiad, a cheir crynodeb ohonynt ar y diwedd.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

## 1. Llesiant Da

### Crynodeb

Mae'r plant yn derbyn gwasanaeth o ansawdd da sy'n cynnig amrywiaeth eang o gyfleoedd diddorol ac ysgogol. Maent wedi setlo'n dda iawn, yn fodlon eu byd ac yn dangos boddhad amlwg ynglŷn â'r ffordd y maent yn treulio eu hamser yn y ddarpariaeth. Mae'r plant yn meithrin cydberthnasau cadarnhaol a chynnes â'r staff gofal a phlant eraill, ac yn teimlo eu bod yn cael eu croesawu ac yn teimlo'n gartrefol. Maent yn derbyn gofal cyson a chefnogol ac yn edrych ymlaen at ddod i'r clwb.

### Ein canfyddiadau

Mae'r plant yn gwneud eu penderfyniadau eu hunain ynglŷn â'r ffordd y maent yn treulio eu hamser yn y gwasanaeth, a gallant arwain eu chwarae eu hunain. Ymgynghorir â nhw ynglŷn â'r gweithgareddau sydd ar gael iddynt, ac maent yn cyfrannu awgrymiadau a syniadau ynghylch y ffordd y caiff y gwasanaeth ei redeg. Mae'r plant yn hyderus i ddechrau chwarae gemau ac yn gofyn am gymorth gan y staff pan fo angen. Mae'r plant a'r staff yn cael sgyrsiau cyfeillgar a chefnogol, ac roedd yn amlwg bod y staff yn gwrando ar y plant ac yn ystyried eu safbwyntiau bob amser. Mae'r plant yn cofrestru eu hunain wrth gyrraedd, ac yn dewis sticer gyda llun o wyneb arno sy'n dangos sut y maent yn teimlo. Mae'r staff yn gwneud gwaith dilynol drwy gefnogi'r plant sy'n dangos nad ydynt yn hapus.

Mae'r plant yn gwerthfawrogi eu hamser yn y gwasanaeth, a dywedodd y rhieni wrthym fod y plant yn edrych ymlaen at ddod i gwrdd â ffrindiau ac ymlacio ar ddiwedd y diwrnod ysgol. Mae'r plant a'r staff yn gwisgo sliperi yn ystod y sesiynau, ac mae hyn yn cyfrannu at sicrhau eu bod yn teimlo'n gyfforddus. Mae gan y plant gydberthnasau da iawn â'u gofalwyr, ac maent yn teimlo'n gyfforddus yn rhannu gwybodaeth bersonol am eu teuluoedd â'r staff a'u ffrindiau. Mae rhai o'r plant yn canu gyda'i gilydd yn ddigymell, sy'n dangos eu bod yn fodlon ac yn hapus. Mae plant o grŵp oedran eang yn defnyddio'r gwasanaeth, ac mae'r plant iau yn cael budd o gefnogaeth y plant hŷn sy'n gweithredu fel modelau rôl iddynt. Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn glir ynglŷn â'r ffordd y disgwylir iddynt ryngweithio ag eraill, ac maent yn gwerthfawrogi'r amgylchedd llonydd a chefnogol.

Gall y plant ddewis o amrywiaeth gynhwysfawr ac amrywiol o weithgareddau ysgogol a diddorol. Mae llawer o'r plant iau yn manteisio ar yr adnoddau chwarae rôl sydd ar gael, yn enwedig ardal y gegin/y cartref, lle y byddant yn gwneud te i ymwelwyr. Mae rhai o'r plant yn edrych ymlaen at y cyfle i wisgo i fyny a chwarae gwahanol rolau yn ystod y sesiynau. Mae cymeriadau o 'The Gruffalo' a 'Transformers' yn ddewisiadau poblogaidd. Mae'r plant yn mwynhau gweithgareddau crefft a gwneud cardiau ar gyfer eu rhieni i ddathlu gwyliau diwylliannol megis Dydd Santes Dwynwen. Mae'r plant yn mwynhau chwarae corfforol a gemau, ac yn manteisio ar y cyfleusterau awyr agored helaeth sydd ar gael iddynt yn ystod tywydd braf. Mae'r plant hefyd yn mwynhau ioga a dawnsio.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

Mae'r plant yn cyflawni tasgau ac yn helpu ei gilydd. Maent yn gyfrifol am dacluso adnoddau ac yn helpu eu hunain i fwyd a diodydd. Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn defnyddio'r toiled yn annibynnol, gan ofyn am gymorth os oes angen. Cymraeg yw'r unig iaith a ddefnyddir yn y gwasanaeth, ac mae'r plant yn cyfathrebu'n hyderus.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

## 2. Gofal a Datblygiad Da

**Crynodeb**

Mae gweithdrefnau a strategaethau effeithiol ar waith i sicrhau bod gan y staff y wybodaeth a'r sgiliau i gynnig gwasanaeth o ansawdd da i'r plant sydd yn eu gofal. Mae prosesau a systemau sydd wedi'u datblygu'n dda yn sicrhau y rhoddir blaenoriaeth i ddiogelu ac iechyd a diogelwch y plant.

**Ein canfyddiadau**

Mae amrywiaeth dda o weithdrefnau iechyd a diogelwch priodol ar waith er mwyn sicrhau llesiant y plant. Mae pob aelod o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant cymorth cyntaf, hylendid bwyd a diogelu. Drwy ein trafodaethau â'r unigolyn cyfrifol a'r staff, cawsom gadarnhad bod ganddynt y profiad a'r wybodaeth i ddelio ag unrhyw bryderon diogelu. Mae polisi amddiffyn plant ar waith, ac mae'r arweinwyr yn hyderus i werthuso unrhyw risgiau i blant a chyfeirio achosion at yr awdurdod priodol os bydd angen. Gwelsom dystiolaeth bod pob mater sy'n peri pryder yn cael ei gofnodi'n gadarn. Caiff unrhyw ddamweiniau eu cofnodi'n dda ac nid ydynt yn peri unrhyw bryder. Caiff unrhyw anafiadau sy'n digwydd y tu allan i'r gwasanaeth eu monitro'n ofalus hefyd.

Defnyddir archwiliad atal a rheoli heintiau Iechyd Cyhoeddus Cymru i fonitro gweithdrefnau hylendid. Cedwir cofnodion trylwyr o bob alergedd ac mae'r rhieni'n diweddaru'r wybodaeth yn ôl yr angen. Mae'r staff yn glanhau pob arwyneb cyn i'r plant eistedd i fwyta eu pryd bwyd. Mae'r plant yn defnyddio clytiau ffibr-micro gwrthfacterol masnachol i sychu eu dwylo. Gwnaethom ofyn i'r unigolyn cyfrifol ailystyried y defnydd o'r deunyddiau hyn ac ystyried defnyddio tyweli papur fel mesur rhagofalus. Mae hyn yn ymateb i'r ffaith bod annwyd ar nifer o'r plant wedi'i achosi gan firws ac nid bacteria. Rhoddwyd hyn ar waith ar ddiwrnod yr arolygiad. Mae bwydlen iach sy'n newid i gyd-fynd â hoff a chas bethau'r plant. Mae'r staff yn cynnig bwyd sy'n newydd i rai o'r plant, megis hummus a ffrwythau egsotig. Caiff hyn ei fonitro, ac mae'r staff yn gofyn i'r plant am adborth cyn i'r bwyd gael ei gynnig eto. Mae poteli dŵr unigol gan y plant y maent yn eu defnyddio yn ôl yr angen.

Mae polisi rheoli ymddygiad ar waith ac mae'r staff yn ei ddilyn er mwyn darparu gofal ac arweiniad cyson i'r plant. Mae pob aelod o'r staff yn brofiadol ac yn meddu ar ddealltwriaeth dda o ddatblygiad plant a'r ffordd y mae'n effeithio ar ymddygiad plant. Mae'r staff yn fodelau rôl cadarnhaol ac maent yn barchus, yn gwrtais ac yn garedig tuag at ei gilydd a'r plant. Clywsom y staff yn hybu ymddygiad cadarnhaol drwy ganmol ac annog y plant. Mae'r gwasanaeth yn dilyn arferion yr ysgol o ran monitro safonau ymddygiad. Mae hyn yn cynnwys defnyddio 'Ap' i gofnodi'r pwyntiau a ddyfernir am ymddygiad cadarnhaol, cymryd rhan, cymryd eu tro, gweithio mewn tîm, gwrando a datblygu sgiliau annibyniaeth. Gall y rhieni edrych ar hyn ar-lein, ac maent yn falch o gael y wybodaeth, a gynllunnir er mwyn ysgogi'r plant.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

Darperir gofal ymatebol a meithringar i'r plant gan dîm o staff sy'n gwerthfawrogi cefndiroedd y plant ac yn eu hannog i fynegi eu hunain fel unigolion. Anogir y plant i fod yn chwilfrydig ynglŷn â'u bywydau a'u credoau eu hunain a rhai pobl eraill, a chaiff digwyddiadau diwylliannol eu dathlu fel y bo'n briodol. Ymhlith y rhain mae'r Flwyddyn Newydd Tsieineaidd, Diwali, Dydd Gŵyl Dewi a themâu eraill sy'n adlewyrchu bywydau a phrofiadau'r plant sy'n mynychu'r clwb. Nid oes disgwyl i'r plant gydymffurfio â stereoteipiau rhywedd a chaiff pob un o'r plant eu cefnogi i wneud dewisiadau rhydd a chyfartal o ran gwaith cynllunio, chwarae, dysgu a gweithgareddau hamdden.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

## 3. Yr Amgylchedd Da

### Crynodeb

Mae'r gwasanaeth yn rhedeg o ystafell ddosbarth yn Ysgol Gynradd Gymraeg Tonyrefail, sef yr ysgol y mae'r holl blant sy'n defnyddio'r gwasanaeth yn mynd iddi. Mae'r safle'n ddiogel, yn ddeniadol ac yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda, ac mae'n cynnig cyfleoedd da i'r plant gymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden a dysgu.

### Ein canfyddiadau

Mae'r arweinwyr yn glir ynglŷn â'u cyfrifoldebau i gynnal amgylchedd diogel i'r plant. Gwelsom restrau gwirio dyddiol ac wythnosol a ddefnyddir i fonitro diogelwch yr adeilad ac unrhyw beryglon posibl. Mae asesiadau risg ar waith ac yn cael eu diweddaru a'u hadolygu'n rheolaidd. Caiff anghenion penodol plant unigol eu hystyried wrth fonitro'r risgiau yn yr adeilad. Rhoddir sylw da i'r gwaith o gynnal lefelau goruchwylio priodol ar gyfer y plant ac roedd y cofnodion yn dangos bod y gymhareb o staff i blant fel arfer yn rhagori ar ofynion y Safonau Gofynnol Cenedlaethol. Mae'r staff yn cymryd cofrestr o'r plant pan fyddant yn cyrraedd ac yn cofnodi amseroedd cyrraedd a gadael. Mae'r holl ymwelwyr yn llofnodi wrth gyrraedd y lleoliad, sy'n sicrhau nad oes unrhyw bobl ar y safle heb ganiatâd. Cynhelir ymarferion tân bob mis a chânt eu cofnodi. Mae angen gwybodaeth ychwanegol i nodi unrhyw beryglon sy'n codi ac unrhyw ddysgu a allai gyfrannu at y gwaith o wella diogelwch tân.

Mae'r safle'n cynnig amgylchedd cyfoethog i'r plant fwynhau chwarae a dysgu. Mae'r ystafell a ddefnyddir gan y plant yn fawr ac wedi'i chynllunio'n dda. Gall y plant sy'n cyrraedd ar ôl yr ysgol fanteisio ar adnoddau ychwanegol sy'n addas at eu hoedran a gaiff eu storio mewn cwpwrdd ar wahân. Mae nifer addas o doiledau a basnau llaw hygyrch ar gael i'r plant. Byddai'n werth addurno'r ardal hon, ac mae hyn yn rhan o gynllun datblygu'r gwasanaeth. Mae cynlluniau hefyd i newid coridor yn swyddfa fach, sy'n cynnig ymateb ymarferol i'r broblem o ddarparu lle gweithio addas ar gyfer y rheolwyr a'r staff ar y safle. Mae neuadd yr ysgol ar gael iddynt ei defnyddio ar amseroedd penodol yn ystod yr wythnos, a chaiff ei defnyddio ar gyfer chwarae egnïol a gemau. Nid yw'r plant yn cael mynd i mewn i'r gegin, a gaiff ei defnyddio gan aelod penodol o'r staff sy'n gyfrifol am gynllunio bwydlenni, paratoi bwyd a chlirio. Mae'r staff yn defnyddio Safonau Bwyd a Maeth fel sail ar gyfer cynllunio bwydlenni iach.

Mae'r person â chyfrifoldeb yn ymgynghori â'r plant ynglŷn â'r cyfarpar a brynir, ac mae'r plant yn hapus â'r amrywiaeth o brofiadau a chyfleoedd sydd ar gael iddynt. Mae adnoddau ar gael iddynt sy'n hybu chwilfrydedd, gan gynnwys eitemau ymarferol sy'n naturiol ac y gellir eu hailgylchu. Mae'r gwasanaeth wedi ymrwymo i hyrwyddo cynaliadwyedd ac mae ethos eco-gyfeillgar trwyadl ar waith. Mae'r holl gyfarpar yn gryf, o ansawdd uchel, yn hawdd cael gafael arno ac yn briodol ar gyfer oedran a cham datblygu'r plant. Mae'r staff yn glanhau'r safle bob nos.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

## 4. Arwain a Rheoli — Da

### Crynodeb

Mae arweinwyr a rheolwyr y gwasanaeth yn brofiadol ac yn gymwysedig iawn. Mae ganddynt ymdeimlad o ddiben sy'n hyrwyddo ac yn cynnal gwelliannau a chanlyniadau da i'r plant. Mae'r holl bolisïau a gweithdrefnau gofynnol ar waith ac mae'r gwasanaeth yn cydymffurfio â'r rheoliadau perthnasol.

### Ein canfyddiadau

Caiff y gwasanaeth ei arwain yn effeithiol, ac mae'r person â chyfrifoldeb a'r unigolyn cyfrifol yn rhoi polisïau ar waith er mwyn sicrhau bod y plant yn cael gwasanaeth diogel o ansawdd uchel. Ceir datganiad o ddiben a gaiff ei ddiweddaru'n rheolaidd ac sy'n rhoi darlun cywir o'r hyn y mae'r gwasanaeth yn ei gynnig. Mae'r gwasanaeth wedi'i gofrestru â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, ac mae'r holl gofnodion yn gyfrinachol ac yn ddiogel. Mae'r unigolyn cyfrifol yn cynnal cyswllt rheolaidd â'r person â chyfrifoldeb, ac yn gweithio yn y ddau wasanaeth gwahanol, gan ddarparu cymorth yn ôl yr angen. Cynigir cyfleoedd rheolaidd i ddatblygu i bob aelod o'r staff sydd wedi cwblhau'r hyfforddiant gorfodol sydd ei angen. Ymysg y cyfleoedd datblygu eraill a gynigir, mae ymwybyddiaeth o awtistiaeth a rheoli ymddygiad heriol.  Mae'r staff yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi fel cyflogeion, a bod gan y cwmni ddisgwyliadau uchel ohonynt o ran darparu gwasanaeth sy'n gwella'n gyson. Mae'r tîm yn cydweithio'n effeithiol, ac mae pob aelod yn deall ei rolau a'i gyfrifoldebau. Mae'r cynnig rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg ar waith, ac mae'r rhan fwyaf o'r staff yn siarad Cymraeg yn rhugl.

Mae'r rhieni'n fodlon iawn ar ansawdd y gwasanaeth, ac yn gwerthfawrogi cysondeb y staff a'r hyblygrwydd a gynigir iddynt. Mae'r broses recriwtio staff yn gadarn, ac mae'r cofnodion yn dangos bod yr holl staff yn addas. Caiff yr holl wybodaeth sy'n gysylltiedig ag anghenion unigol y plant ei chadw yn ffeiliau'r plant, ac mae'r rhieni'n diweddaru'r wybodaeth hon yn ôl yr angen. Mae cynllun datblygu ar gael sy'n amlinellu'r ffordd y bydd y gwasanaeth yn gwella, a'r camau a gymerir er mwyn sicrhau bod y staff yn cael cymorth da i gyflawni eu rôl yn effeithiol. Mae'r unigolyn cyfrifol yn bwriadu trefnu ymweliadau er mwyn i'r staff allu gweld gwasanaethau sy'n cyflawni'n dda yn yr ardal gyfagos fel ffordd o ddatblygu gwybodaeth ac arbenigedd pellach. Mae polisi cwyno ar waith; fodd bynnag, nid oedd y gwasanaeth wedi cael unrhyw gwynion.

Mae'r staff yn cael sesiynau goruchwylio un i un â'r person â chyfrifoldeb yn rheolaidd. Mae'r unigolyn cyfrifol yn cynnal arfarniadau blynyddol gyda chyfarwyddwr y cwmni. Mae rhaglen llesiant gynhwysfawr ar waith ar gyfer y staff, sy'n cynnig amrywiaeth o gyfleoedd datblygu a chymorth a gaiff eu teilwra i bob unigolyn. Mae'r unigolyn cyfrifol yn bwriadu datblygu tîm sy'n gweithredu ar lefel uchel sydd wedi'i baratoi i roi gwasanaeth o ansawdd i blant. Mae partneriaethau effeithiol ar waith. Mae cydberthynas dda rhwng y gwasanaeth a'r ysgol, ac mae'r ddau yn gefnogol ac yn barod i helpu ei gilydd.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

# 5. Gwelliannau sydd eu hangen ac a argymhellir yn dilyn yr arolygiad hwn

## 5.1 Meysydd o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd mewn arolygiadau blaenorol

Dim

## 5.2 Argymhellion ar gyfer gwella:

- Cynnwys gwybodaeth bellach mewn cofnodion ymarferion tân.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

## 6. Sut y gwnaethom gynnal yr arolygiad hwn

Arolygiad a drefnwyd ymlaen llaw, yn ddirybudd oedd hwn. Ymwelodd un arolygydd â'r gwasanaeth am gyfnod o bum awr ar 21 Ionawr 2020:

- Gwnaethom siarad â nifer o'r plant yn ystod y sesiynau, tri rhiant, pedwar aelod o'r staff, y person â chyfrifoldeb dros dro, yr unigolyn cyfrifol a chyfarwyddwr y cwmni.
- gwnaethom ddefnyddio'r wybodaeth a ddelir gan AGC, yn ogystal ag edrych ar amrywiaeth eang o gofnodion. Roedd y rhain yn cynnwys y datganiad o ddiben, asesiadau risg, copïau o bolisïau a gweithdrefnau a oedd yn cynnwys diogelu, rheoli ymddygiad a chofnodion damweiniau. Gwnaethom hefyd edrych ar ffeiliau tri aelod o'r staff a ffeiliau tri phlentyn
- gwnaethom gynnal archwiliad gweledol o'r safle
- gwnaethom roi adborth i'r unigolyn cyfrifol a'r cyfarwyddwr ar ddiwedd yr arolygiad.

Ceir rhagor o wybodaeth am yr hyn rydym yn ei wneud ar ein gwefan:
www.arolygiaethgofal.cymru

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

## 7. Ynglŷn â'r gwasanaeth

| | |
|---|---|
| **Y math o ofal a ddarperir** | **Gofal Dydd Plant**<br>**Gofal Dydd Llawn** |
| **Unigolyn Cyfrifol** | **Natalie Hughes** |
| **Person â chyfrifoldeb** | **Courtney Thomas** |
| **Uchafswm y lleoedd a gofrestrwyd** | **16** |
| **Ystod oedran y plant** | **3–11 oed** |
| **Oriau agor** | **Gwasanaeth cofleidiol: 12.30pm–3.30pm o ddydd Llun i ddydd Gwener**<br>**Clwb ar ôl ysgol: 3.20pm–6.00pm o ddydd Llun i ddydd Gwener**<br>**Clwb gwyliau yn ystod gwyliau'r haf, 8:30am-3.30pm** |
| **Iaith weithredol y gwasanaeth** | **Cymraeg** |
| **Dyddiad arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru** | **Arolygiad cyntaf** |
| **Dyddiad yr ymweliad arolygu hwn** | **21 Ionawr 2020** |
| **A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg?** | **Nac ydy** |
| **A yw'r gwasanaeth yn darparu addysg blynyddoedd cynnar ar gyfer plant tair a phedair oed?** | **Nac ydy** |
| **A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg?** | **Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a allai ei ddefnyddio, o ran y Gymraeg a'i diwylliant.** |
| **Gwybodaeth Ychwanegol: Dim** | |

**Dyddiad Cyhoeddi** 26/03/2020

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi